



**Cartrefi
Cymunedol
Cymru**

**Community
Housing
Cymru**

Pecyn Recriwtio: Swyddog Creadigol Brand a Dylunio

£32,287 yn codi i £33,986

Dyddiad cau: 9yb, 19 Awst 2022

member of aelod o



promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

www.chcymru.org.uk
02920 674 800

Cofrestrwd dan y Ddeddf Cwmnïau 1985
Registered under the Companies Act 1985
Rhif Cofrestru | Registration Number: 2380564
Rhif Cofrestru Elusen | Charity Registration Number: 1128527



Swyddog Creadigol Brand a Dylunio

£32,287 yn codi i £33,986 + buddion hael + ymagwedd hyblyg at y gweithle

ar ôl 6 mis o gyfnod prawf

Ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth?

Mae "Arhoswch gartref!" yn ymadrodd a glywsom dro ar ôl tro yn ystod y pandemig. Nid yw ein cartrefi erioed wedi cael cymaint o amlygrwydd; mae llawer ohonom yn treulio cymaint o amser ynddynt ac mae cynifer o agweddau o'n bywydau yn troi o'u hamgylch. Nid yw 'Cartref' erioed wedi golygu mwy.

Rhywle saff, cysurus a diogel i ddod drwy waethaf y pandemig. Rhywle sy'n addasu i'r newid yn ein hanghenion. Rhywle y medrwn gysylltu â'n gwaith, addysg, gwasanaethau cyhoeddus – a'n gilydd.

Rydym eisiau gweld Cymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb ac mae cymdeithasau tai eisiau chwarae eu rhan lawn mewn gwireddu hyn. Mae cymdeithasau tai yn adeiladu miloedd o gartrefi fforddiadwy i'w rhentu bob blwyddyn, maent yn helpu pobl i fynd ar ysgol prynu eiddo a chael mynediad i swyddi a hyfforddiant. Maent hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth iechyd i ddarparu gofal a chymorth o fewn cymunedau. Ond mae ganddynt uchelgeisiau mawr i wneud llawer mwy i ddod â'r argyfwng tai yng Nghymru i ben.

Yn ogystal â helpu i ddweud stori ein sector, dymunwn i ddeiliad y swydd arwain gyda hunaniaeth brand, creu cynnwys gweledol diddorol, dealladwy a defnyddiol a pharhau i dyfu ein allbwn creadigol ar draws ystod eang o gyfryngau.

Rydym yn edrych am rywun sy'n frwdfrydig am chwarae eu rhan wrth ddod â'r argyfwng tai i ben. Os yw hyn yn swnio fel chi, daliwch i ddarllen os gwelwch yn dda.

Mae CHC wedi llofnodi ymrwymiad [Gweithredoedd nid Geiriau Tai Pawb](#) ac mae wrthi'n gweithio gyda chynghorydd allanol a'n haelodau ar strategaeth cydraddoldeb a chynhwysiant i hyrwyddo amgylchedd mwy cynhwysol, sy'n denu pob ymgeisydd ac yn arwydd o'n hymrwymiad i ddatlu a hyrwyddo amrywiaeth. Croesawn geisiadau gan bobl o bob cefndir.



Amserlenni

Dyddiau cau – 9yb 19 Awst
Cyfweliadau – 30 Awst



Amdanom Cartrefi Cymunedol Cymru

Fel y corff ymbarél ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru, rydym yn falch i gynrychioli ein haelodau sy'n darparu cartrefi a gwasanaethau i 10% o boblogaeth Cymru. Ein gwaith yw sicrhau fod y sector yn parhau i ffynnu yng Nghymru ac wedi paratoi ar gyfer y dyfodol.

Ein Tîm Staff

Rydym yn dim staff ymroddedig sy'n cydweithio i alluogi ein haelodau i fod yn wych. Mae ein diwylliant yn agored, ymddiriedgar a gofalgwr ac mae ein gwerthoedd nid yn unig yn adlewyrchu sut y gweithiwn gyda'n gilydd ond hefyd sut y gweithiwn gyda'n haelodau a rhanddeiliaid. Mae gan staff y rhyddid i gyflawni eu swydd pan a lle maent yn gweithio orau.

Rydym yn annog arloesedd a bob amser yn ymchwilio ffyrdd newydd i wneud pethau'n well. Byddwn yn parhau i gefnogi staff i weithio'n hyblyg gyda ffocws ar ganlyniadau.

Mae gennym 22 aelod o staff sy'n gweithio mewn dau dim: -

- » **Gwasanaethau Busnes – Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth, Gweinyddiaeth, Cyllid, Digwyddiadau a Datblygu Busnes**
- » **Polisi a Materion Allanol – Polisi, Cyfathrebu, Materion Allanol a Gwasanaethau Aelodau**

Rydym wedi gweithio o bell ers dechrau'r pandemig. Gan fwrw golwg ar sut yr ydym wedi perfformio dros y 24 mis diwethaf a dewisiadau staff, rydym wrthi'n edrych ar ofynion gofod a ffyrdd o weithio ar gyfer y dyfodol.

Ers mis Medi 2021 buom yn treialu egwyddor lleoliad am y diwrnod yn galluogi staff i ddewis ble byddent yn gweithio orau (gallai hynny fod gartref, mewn siop goffi neu mewn hyb lleol). Byddwn yn cefnogi staff gyda gwybodaeth ar hybiau lleol fel rhan o'n hymchwiliad i ffyrdd o weithio.

Rhagwelwn y byddai'r tîm staff llawn yn dod ynghyd bob chwe wythnos i gydweithio, arloesi a chymdeithasu.

Ein ffocws yw darparu gwasanaethau gwyh i aelodau gyda dull gweithredu a darpariaeth gwasanaeth digidol yn gyntaf.

Cynnwys

Cliciwch i neidio i dudalennau penodol

[Am y Swydd.....4](#)

[Ein nodau a blaenoriaethau5](#)

[Ein gwerthoedd6](#)

[Am y tîm.....7](#)

[Am beth ydyn ni'n edrych?8](#)

[Beth fydddech chi'n ei gael yn ôl](#)

[am hyn?.....9](#)

[Sut i wneud cais10](#)





Ein Nod:

Erbyn 2022

- » Cael ein hystyried gan aelodau fel corff aelodaeth hanfodol a thra effeithlon.
- » Cael ein cydnabod a'n gwerthfawrogi gan randdeiliaid a defnyddio'r llwyfan hwn i gyflwyno'r achos dros gymdeithasau tai yng Nghymru.
- » Byddwn yn defnyddio awydd y sector i wneud pethau'n wahanol.
- » Ni fydd y llais blaenllaw ar faterion tai yng Nghymru.
- » Byddwn yn darparu gwasanaethau ardderchog i aelodau sy'n ychwanegu gwerth ac yn ei gwneud yn haws i aelodau wneud eu gwaith.
- » Byddwn yn sefydliad ariannol gynaliadwy.

Ein Blaenoriaethau Strategol:

1. Dylanwadu ar amgylchedd gweithredu ein haelodau
2. Dweud stori'r sector
3. Darparu gwasanaethau ardderchog i aelodau
4. Paratoi aelodau ar gyfer y dyfodol
5. Rhedeg sefydliad aelodau gwych

Ein Gweledigaeth:
Cymru lle mae
cartref da yn hawl
sylyfaenol i bawb.

Ein Cenhadaeth:

Ein cenhadaeth yw
galluogi cymdeithasau
tai Cymru i fod yn
WYCH



Ein Gwerthoedd

Tryloywder

Agored a hygyrch ym
mhopeth a wnawn

AtebQI

Cyflawni ein hymrwymiadau
a bod yn gyfrifol i'n haelodau
a'n gilydd

Arloesedd

Byddwn yn mynd ati i ddynodi
ffyrdd newydd i ddarparu'r
gwasanaeth gorau a allwn

Hyblygrwydd

Rydym yn hyblyg ac yn
ymatebol i newid

Cynhwysiant

Rydym yn gwerthfawrogi a
chrosawu natur amrywiol
ein haelodaeth a'n staff

Uchelgais

Rydym yn herio ein hunain
a'n hamgylchedd i sicrhau'r
canlyniad gorau



Am y Swydd

Amcanion Allweddol

- » I ddarparu gwasanaeth dylunio graffeg ansawdd uchel, creadigol ac arloesol ar gyfer Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) ar draws amrywiaeth o blatfformau yn cynnwys ar-lein a chyfryngau cymdeithasol, fideo a phrint
- » Rheoli cynhyrchu yr holl gyhoeddiadau a dylunio ar-lein, cydlynu gydag argraffwyr a chyflenwyr hyd at ddsbarthiad y cynnyrch gorffenedig
- » Cefnogi'r tîm Cyfathrebu i sicrhau y caiff negeseuon diddorol, gwybodus a chreadigol eu cyflwyno i'n cynulleidfaoedd allweddol a rhanddeiliaid

Cyfrifoldebau Allweddol

- » Dehongli briffiau a gofynion allweddol drwy gynhyrchu'r holl ddeunydd a ddyluniwyd gan CHC (yn cynnwys deunydd ymgyrch, taflenni, poster, deunyddiau arddangos, deunyddiau hyrwyddo, llenyddiaeth gorfforaethol, Cartref, fideos, deunydd cyfryngau cymdeithasol a ffeithluniau ac yn y blaen) i ansawdd uchel, gan sicrhau nag amherir ar y brandiau a gwerthoedd.
- » Datblygu canllawiau brand, deunyddiau a hunaniaeth weledol ar gyfer y sefydliad a sicrhau fod staff eraill yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn drwy hyfforddiant, arweiniad a monitro
- » Rheoli a chydlynu unrhyw gynhyrchiad gydag asiantaethau, argraffwyr a chyflenwyr eraill
- » Cyfrannu at bresenoldeb CHC ar y we/ar-lein
- » Bod yn gyfrifol am baratoi manylebion tendr ar gyfer cymorth ychwanegol, tebyg i ddylunio/ datblygu gwefan neu brint
- » Gweithio'n agos gyda'r timau Cyfathrebu a Pholisi ar ymgyrchoedd penodol
- » Cefnogi CHC gyda datblygu llyfrgell o asedau tebyg i dempledi dylunio, ffotograffiaeth a fideos
- » Gweithio gyda'r tîm Ymgysylltu ag Aelodau a Digwyddiadau i gynhyrchu deunyddiau marchnata a digwyddiadau

Arall

- » Gweithio'n agos gydag aelodau eraill o staff CHC i sicrhau cyflenwi gwasanaeth effeithlon i aelodau
- » Cadw perthynas waith effeithlon gyda chydweithwyr a chydweithio
- » Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn gymesur gyda'r swydd fel y gwneir cais

Am y tîm

Byddwch yn adrodd i'r Rheolwr Cyfathrebu ac yn gweithio wrth ochr y Swyddog Cyfathrebu a Chyfryngau.



Cwrdd â'r tîm!



Ruth Dawson
Rheolydd Cyfathrebu



John Price
Swyddog Cyfathrebu
a Chyfryngau
(Gorchudd mamolaeth)



Catrin Harries
Swyddog Cyfathrebu
a Chyfryngau
(Absenoldeb mamolaeth)

Cysylltiadau Allweddol

Asiantaethau, argraffwyr a chyflenwyr eraill, staff CHC, cymdeithasau tai, Rhwydwaith Cyfathrebu CHC, Bwrdd CHC ac asiantaethau hysbysebu.



Am beth ydyn ni'n edrych?

Islaw rhestrir y gofynion sydd eu hangen i gyflawni'r swydd. Bydd y rhain yn rhan allweddol o'r broses ddethol a dylech ddangos eich gallu i gyflawni'r meini prawf hyn yn adrannau perthnasol y ffurflen gais. **H - Hanfodol** **D - Dymunol**

Cymwysterau	» Diploma neu radd mewn Graffeg, Cyfathrebu Gweledol neu faes cysylltiedig neu brofiad cyfwerth - H	
Profiad	<ul style="list-style-type: none"> » Gallu i gynhyrchu syniadau a chysyniadau creadigol da, gan fod yn rhagweithiol wrth arwain prosiectau - H » Gallu i gymryd prosiect dylunio o'r dechrau i'r diwedd - cysyniadau, dylunio, proflenni, llofnodi a chyhoeddi - H » Dwy flynedd o brofiad fel dylunydd graffeg - H » Profiad o weithio ar ddyluniadau dwyieithog - H » Profiad o gydlynu gydag argraffwyr / cyflenwyr / asiantaethau hysbysebu / cwmnïau AV - H » Gwybodaeth a dealltwriaeth o ganllawiau RNIB - H » Angerdd i aros yn gyfoes gyda thueddiadau mewn dylunio a'r gallu i'w cyfleu i aelodau eraill o'r tîm - H » Bod yn hyddysg gyda meddalwedd graffeg tebyg i Adobe Creative Suite: InDesign, Illustrator a Photoshop - H » Hyddysg mewn sgiliau codio: HTML a CSS - H » Bydd gennych y gallu i deilwra eich creadigaethau i weddu i gynulleidfaoedd amrywiol - H » Bydd gennych bortffolio ardderchog sy'n dangos fod eich gwaith yn fawr ar syniadau gwreiddiol, gyda ymrwymiad i grefft, cyflawni a phrofiad manwl wrth ddylunio ar gyfer digidol a phrint - H » Profiad o ddatblygu brand/hunaniaeth gorfforaethol - H » Dangos creadigrwydd a defnyddio dychymyg - H 	<ul style="list-style-type: none"> » Gwybodaeth o sianeli cyfryngau cymdiethasol a phrofiad o ddylunio deunydd ar gyfer y sianeli hyn - H » Sgiliau rhagorol mewn storifyrddio fideo ac animeiddio, cynhyrchu a golygu - H » Sgiliau trefnu a chyfathrebu rhagorol - H » Gallu i flaenoriaethu a gweithio i amserlenni cyfyng - H » Gallu i weithio o fewn tîm a chyfrannu at nodau a gaiff eu rhannu - H » Sgiliau rhyngpersonol rhagorol - H » Profiad o weithio mewn amgylchedd dan bwysau - H » Sgiliau rheoli amser a phrosiect rhagorol - H » Sgiliau effeithlon iawn mewn technoleg gwybodaeth, yn cynnwys defnydd Google Workspace - H » Agwedd 'gallu gwneud' - gallwch wneud i bethau digwydd! - H » Gallu i gydlynu a rhwydweithio gydag amrywiaeth o grwpiau a sefydliadau partner - H » Cymhelliant a'r gallu i weithio heb oruchwyliaeth uniongyrchol » Trylwyrdeb gyda llygad am fanylion - H » Gallu i drosi briff yn ddyluniad yn gyflym - H » Hunangymhelliant gyda'r gallu i gymryd yr awenau - H » Gwybodaeth o'r sector tai cymdeithasol - D » Profiad o ddylunio a datblygu gwe - D » Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg - D » Trwydded yrru a mynediad i gar - D



Beth fydddech chi'n ei gael yn ôl am hyn?




Cyflog:

£32,287 yn codi i £33,986 ar ôl cyfnod prawf o 6 mis.



Oriau:

Mae'r swydd yn seiliedig ar wythnos 35 awr – gweithio hyblyg.



Gwyliau: 25 diwrnod yn codi gan un diwrnod am bob blwyddyn o wasanaeth a gwblheir, hyd at uchafswm o 30 diwrnod a phob gwyliau cyhoeddus (pro rata ar gyfer staff rhan-amser)

Pedwar diwrnod ychwanegol i ffwrdd yn ystod gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

6

Cyfnod Prawf a Goruchwyliaeth:

Chwe mis o gyfnod prawf.



Campfa:

£25 cymhorthdal y mis.



Cynllun Iechyd Arian:

Cynllun iechyd arian y talwyd amdano (*Simply Health*).



Cyfnod Rhybudd:

Ar ôl 6 mis o gyfnod prawf, 4 wythnos.



Lesiant:

Darpariaeth salwch a mamolaeth/ mabwysiadu estynedig.



Pensiwn:

Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol
Cynllun cyfraniadau diffiniedig.
Cyfraniadau cyflogwyr o 5%.



Dysgu a Datblygu:

Cyllideb unigol o £550 y person y flwyddyn.



Gweithio o unrhyw le:

Egwyddor lleoli am y dydd (yn galluogi staff i ddewis lle byddent yn gweithio orau – gallai hynny fod gartref, mewn siop goffi, neu hyb lleol). Fodd bynnag bydd achlysuron misol lle daw'r holl staff ynghyd i gydweithio, arloesi a chymdeithasu.





Sut i wneud cais

Mae'r pecyn swydd hwn yn cynnwys y manylion dilynol:

- » **Disgrifiad swydd, manyleb person a gwybodaeth ar delerau ac amodau.**
- » Ffurflen gyflwyno y bydd angen i chi ei llenwi yn amlinellu mewn **dim mwy na 800 gair** sut ydych yn diwallu'r meini prawf profiad a nodir yn rhan 'Am beth ydyn ni' n edrych' yn y fanyleb swydd a pham eich bod eisiau'r swydd hon.
- » Mae'n **RHAID** i chi hefyd **gynnwys** CV pwrpasol yn gysylltiedig â'ch cais am y swydd (**dim mwy na 3 tudalen**).
- » Ffurflen cyfle cyfartal. Ni chaiff y ffurflen hon ei defnyddio ar unrhyw gam o'r broses recriwtio a chaiff ei gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais yn syth ar ôl ei derbyn. Bydd unrhyw wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon yn parhau'n gyfrinachol a dim ond ar gyfer dibenion monitro y'i defnyddir asesu effeithlonrwydd ein polisi cyfle cyfartal.

Os hoffech gael gwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch os gwelwch yn dda â Ruth Dawson, Rheolydd Cyfathrebu ar 07909 121 703 neu e-bost ruth-dawson@chcymru.org.uk.

Ar ôl eu llenwi, rhaid i'r ffurflen gyflwyno, CV a'r ffurflen cyfle cyfartal gael eu e-bostio wedi'u nodi'n *Preifat a Chyfrinachol - Rheolydd Cyfathrebu* at terryanne-oconnell@chcymru.org.uk erbyn **9yb 19 Awst**.

Caiff pob ffurflen eu cadw am 6 mis yn unol ag arfer gorau i sicrhau y gallwn roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus a chefnogi'r sefydliad pe byddid yn dod â hawliad yn ei erbyn.

Cynhelir cyfweiliadau rhithiol ar 30 Awst.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais maes o law.

Phillipa Knowles

Cyfarwyddydd Adnoddau a
Datblygu Sefydliadol

